Anifeiliaid Llyfr yr Athro

'Neidr' gan Manon Hedd
o'r gyfrol ***Sgram! Cerddi Blasus,*** gol. Non ap Emlyn

Cyflwyno'r Testun

- Dal copi o'r gerdd yn ddigon pell i ffwrdd oddi wrth y disgyblion er mwyn iddynt allu gweld siâp y gerdd heb ddarllen y geiriau unigol. Beth sy'n eu taro nhw'n syth? Ydyn nhw'n gallu rhagdybio am beth mae'r gerdd yn sôn?
- Rhoi cyfle i'r dosbarth wrando ar y gerdd cyn ei darllen. Byddai'n syniad da recordio'r gerdd ymlaen llaw er mwyn manteisio'n llawn ar y cyfle i gael rhywun i berfformio'r gerdd.
- Dosbarthu copïau o'r gerdd a'i darllen mewn grwpiau. Yna, gall pob grŵp ddarllen y gerdd ar goedd gan roi sylw arbennig i'r gwahanol seiniau, e.e. sssssssssss, sssssshhhhhhh ayyb.

Gwaith Meddwl

- Edrych eto ar y gerdd a gofyn iddynt ystyried y cwestiynau canlynol mewn parau:
  - ★ Ydy'r gerdd yn tynnu eu sylw yn fwy na cherddi arferol? Pam?
  - ★ Beth sy'n digwydd yn y gerdd?
  - ★ Pwy sy'n siarad yn y gerdd?
  - ★ Beth ydy enw'r neidr? Ydy'r enw'n addas? Pam?
  - ★ Ydyn nhw'n meddwl bod y darn yn gerdd go iawn, neu ydy e'n rhy wahanol i'r syniad traddodiadol o gerddi? (Mae hyn yn rhoi cyfle i'r athro esbonio bod y geiriau wedi'u dewis yn ofalus a bod rhythm arbennig i'r darn; oherwydd hynny, mae hi'n gerdd go iawn.)

Gwaith Trafod

- Gofyn i'r disgyblion rannu'n grwpiau a thrafod eu teimladau tuag at nadroedd. Pwy sydd ag ofn nadroedd? Pam?
- Ydyn nhw'n adnabod rhywun arall sydd ag ofn nadroedd?
- Oes ganddyn nhw unrhyw wybodaeth am y gwahanol fathau o nadroedd sydd i'w cael yn y byd?
- Trafod a oes ganddyn nhw unrhyw hanesion personol o weld neidr, e.e. mewn sw neu rywle arall.

Gwaith Iaith

- Gofyn iddynt gyfrif nifer y geiriau yn y gerdd.
- Esbonio beth yw cyflythreniad, a gofyn iddynt chwilio am enghreifftiau yn y gerdd, e.e. llawr llyfn.
- Gofyn i'r dosbarth pa sain neu lythyren sy'n ymddangos amlaf yn y gerdd, yna tanlinellu'r enghreifftiau. Tynnu sylw'r dosbarth fwyfwy at y defnydd o sssss / shhhh a gofyn ydy'r bardd wedi gwneud hynny'n fwriadol ai peidio. Ydy'r seiniau hynny yn eu hatgoffa o rywbeth? (Y sŵn mae neidr yn ei wneud.)
- Mewn parau, gall y disgyblion fynd ymlaen i geisio ymestyn rhywfaint ar y gerdd drwy efelychu'r arddull ac ychwanegu naill ai geiriau sy'n dechrau â'r llythyren 's' neu sy'n cynnwys y llythyren 's', e.e. amsssssssser sssssssssswper . . .

Gweithgareddau

- Gan fod y gerdd mor fyr, mae'n gyfle gwych i'r disgyblion ei dysgu ar eu cof a'i pherfformio mewn grwpiau o flaen gweddill y dosbarth.
- Gofyn iddynt arbrofi â siâp y gerdd ac ailysgrifennu'r gerdd gan ddefnyddio siâp gwahanol. Gallant wneud hynny drwy ddefnyddio cyfrifiadur.
- Dosbarthu lluniau o wahanol anifeiliaid a gofyn i'r dosbarth drafod, mewn grwpiau, pa rai fyddai'n apelio atyn nhw pe bai gofyn iddyn nhw lunio cerdd siâp ar eu cyfer.
- Y cam nesaf yw gofyn iddynt ddewis un o'r lluniau, a dechrau meddwl am synau arbennig yr anifail hwnnw. Ydyn nhw'n gallu ail-greu'r sŵn hwnnw trwy ddefnyddio llythrennau arbennig? Rhaid iddynt feddwl am enw i'r anifail. Ydyn nhw'n gallu meddwl am ddwy ffaith am yr anifail hwnnw? (e.e. mae neidr yn llithro, mae mwnci'n bloeddio, mae eliffant yn symud yn araf . . .) Gellir defnyddio blwch tebyg i'r isod i'w helpu:

Anifail	Sŵn	Enw	Ffaith
Llygoden	Gwichian	Llinos	• Rhuthro / symud yn gyflym • Creadur tawel iawn

  Y dasg wedyn yw crynhoi'r holl wybodaeth a'i defnyddio i greu cerdd siâp ar gyfer yr anifail hwnnw. Dylai'r athro bwysleisio nad oes angen i'r gerdd fod yn hir iawn ac nad oes angen odl. Dylent geisio efelychu'r hyn a geir yn y gerdd 'Y Neidr'. Byddai'n syniad da i'r athro greu cerdd enghreifftiol er mwyn modelu'r hyn a ddisgwylir. Gall y dasg hon fod yn waith grŵp neu'n waith unigol.
- Gall y dosbarth fynd ati mewn grwpiau i wneud cywaith grŵp ar nadroedd. Gallant bori drwy lyfrau yn y llyfrgell neu ddefnyddio adnoddau ar-lein i ddod o hyd i ffeithiau a manylion diddorol am nadroedd. Gellir trefnu sesiwn trafod syniadau i sicrhau bod pob grŵp yn defnyddio'r is-benawdau perthnasol:
  - ★ Nadroedd ein gwlad ni
  - ★ Nadroedd gwenwynig
  - ★ Fy hoff nadroedd
  - ★ Rheolau cadw neidr
  - ★ Hanesion diddorol am nadroedd

  Gellir trafod sut y mae disgwyl iddynt gyflwyno'r wybodaeth, e.e. paragraffau byr, ffeithiau, lluniau, mapiau, graffiau, tablau ayyb.

Sgram! Cerddi Blasus ® Atebol, 2012

'Ci Defaid' gan Idris Reynolds o'r gyfrol ***Cerddi'r Cof,*** gol. Mererid Hopwood
'Ffrind' gan Non ap Emlyn a **'Fy Ffrindiau i'** gan Hedd ap Emlyn o'r gyfrol ***Sgram! Cerddi Blasus,*** gol. Non ap Emlyn

Cyflwyno'r Testun

- Gofyn a oes unrhyw un yn y dosbarth wedi clywed yr ymadrodd 'Ffrind Gorau Dyn' (*Man's Best Friend*). Trafod beth yw ystyr yr ymadrodd hwnnw.
- Rhoi cyfle i'r dosbarth **wrando** ar y cerddi cyn eu darllen. Efallai y gellir recordio tri pherson gwahanol yn adrodd y cerddi, yna chwarae'r ffeiliau sain yn y dosbarth.
- Chwarae'r darnau eto a gofyn am farn gychwynnol y dosbarth. Gofyn iddynt drafod mewn parau er mwyn gosod y cerddi mewn trefn o 1 i 3 (1 = y gerdd orau).
- Dosbarthu copïau o'r cerddi a'u darllen mewn grwpiau. Ydy barn y plant wedi newid ar ôl iddynt gael cyfle i ddarllen y cerddi?

Gwaith Meddwl

- Edrych yn fanwl ar y gerdd 'Ffrind,' a gofyn iddynt ystyried y cwestiynau canlynol mewn parau:
  - ★ Ydy teitl y gerdd yn addas? Pam?
  - ★ I ba un o'r cerddi eraill mae'r gerdd hon yn fwyaf tebyg? Ym mha ffordd?
  - ★ Pwy ydy'r 'ffrind' sydd yn y gerdd hon?
  - ★ Disgrifiwch y bardd.
  - ★ Sut mae'r ci yn helpu'r bardd?
  - ★ Ydych chi'n hoffi'r ailadrodd sydd yn y gerdd? Pam? Beth yw bwriad yr ailadrodd hwnnw?

Gwaith Trafod

- Gofyn iddyn nhw drafod mewn grwpiau a rhestru enghreifftiau eraill o anifeiliaid penodol yn helpu pobl, e.e. helpu person dall, cŵn yn helpu'r heddlu, cŵn sy'n achub pobl rhag boddi. Efallai y gellir dod o hyd i luniau / ffotograffau ar y we i hybu'r drafodaeth.
- Trafod a oes ganddyn nhw unrhyw hanesion eu hunain o anifeiliaid yn helpu pobl, e.e. ci yn helpu ar y fferm.

Gwaith Iaith

- Edrych ar y gerdd 'Fy Ffrindiau i'. Tynnu sylw'r dosbarth at yr odl sydd yn y gerdd, e.e. llygoden / cwningen. Ydyn nhw'n gallu meddwl am barau eraill o eiriau sy'n ymwneud ag anifeiliaid ac sy'n odli?
- Edrych ar y gerdd 'Ci Defaid'. Rhannu'r dosbarth yn barau a gofyn i bob pâr nodi'r ansoddeiriau sy'n codi yn y gerdd. Beth mae'r ansoddeiriau'n ei ddweud am deimladau'r bardd tuag at y ci defaid?
- Gellir cyffwrdd yn ysgafn â rheolau englyn. Y ffordd orau i dynnu sylw at hyn i ddechrau fyddai gofyn i'r dosbarth, mewn parau, nodi tri gwahaniaeth rhwng y gerdd 'Ci Defaid' a'r gerdd 'Ffrind'. Gellir llenwi tabl tebyg i'r isod:

Ci Defaid	Ffrind
• Hyd y llinellau yn eitha rheolaidd • Odl	• Hyd y llinellau yn amrywio • Dim odl

- Cyflwyno'r disgyblion i'r syniad o drosiad. Gofyn iddynt nodi, mewn parau, yr holl enghreifftiau o 'Ti yw / ydy . . .' sy'n ymddangos yn y cerddi. Gallant fynd ymlaen i lunio rhagor o drosiadau yn yr un arddull, gan gyfeirio naill ai at anifail anwes neu at anifail dychmygol.

Gweithgareddau

- Ar ôl i'r dosbarth ymgyfarwyddo â'r cerddi a'u cynnwys, gellir torri'r cerddi'n stribedi a'u gosod ar y ddesg o flaen y grwpiau, gyda darnau o'r tair cerdd wedi'u cymysgu. Tasg y grwpiau yw rhoi'r cerddi'n ôl at ei gilydd, drwy benderfynu pa linellau sy'n perthyn i ba gerdd.
- Gellir ymestyn yr ymarfer uchod drwy edrych eto ar y darnau, mewn grwpiau. Y dasg y tro hwn yw dewis gwahanol linellau o bob un o'r cerddi i greu un gerdd newydd. Gall hyn esgor ar lawer o drafod mewn grwpiau wrth ystyried cryfderau a gwendidau llinellau penodol.
- Yr athro i ddod â lluniau / ffotograffau o wahanol anifeiliaid i'r dosbarth a rhoi un llun i bob pâr. Dewis arall fyddai dosbarthu copïau o'r cylchgrawn *National Geographic*, sy'n aml iawn yn cynnwys ffotograffau arbennig o wahanol anifeiliaid. Dyma gyfle i efelychu un o nodweddion arddull dwy o'r cerddi drwy ofyn i bob pâr ddefnyddio'r llun fel sbardun a chreu cerdd fer sy'n dechrau ac yn gorffen â'r geiriau 'Ti yw / ydy . . .'

- Cynnal cwis hwyliog yn seiliedig ar y tair cerdd. Rhannu'r dosbarth yn grwpiau a gofyn cwestiynau tebyg i'r isod. Rhaid penderfynu o flaen llaw sawl marc a roddir am bob ateb cywir, a faint o amser sydd gan y grwpiau i ateb y cwestiynau.
  - ★ Sawl anifail sydd yn y gerdd 'Fy Ffrindiau i'?
  - ★ Pwy sy'n dweud 'Ga i basio?' yn y gerdd 'Ffrind'?
  - ★ Ydy'r ci yn y gerdd 'Ci Defaid' yn hapus neu'n drist?
  - ★ Beth yw ystyr y gair 'Peciñ' sy'n ymddangos yn y gerdd 'Fy Ffrindiau i'?
  - ★ Pa gerdd sy'n cynnwys enw anifail?
  - ★ Pe byddech chi'n cyfri'r anifeiliaid sydd yn y tair cerdd, beth fyddai'r cyfanswm?
- Edrych eto ar y gerdd 'Ffrind'. Gellir gofyn i'r dosbarth, fesul pâr, danlinellu'r enghreifftiau o ddeialog sydd yn y gerdd. Rhaid iddynt wedyn greu llinellau newydd gan ddisodli'r llinellau gwreiddiol â'r llinellau newydd o ddeialog, a gall pob pâr gyflwyno'r gerdd 'newydd' o flaen gweddill y dosbarth.

- Cyflwyno'r dosbarth i ffurf ysgrifennu 'Ymson', gan ddangos rhai enghreifftiau. Gofyn iddynt lunio naill ai ymson y ci defaid neu ymson y ci sy'n helpu pobl fyddar. Rhaid sicrhau bod y dosbarth yn deall y gofynion, a dylid cynnig cynllun byr iddynt i'w ddilyn ar ôl trafod syniadau fel dosbarth.

Ymson
- ★ Defnyddio'r person cyntaf
- ★ Sôn am deimladau
- ★ Ysgrifennu yn y presennol

- Gall y dosbarth fynd ati mewn grwpiau i wneud gwaith ymchwil i lunio'u casgliad eu hunain o dair neu ragor o gerddi'n ymwneud ag anifeiliaid. Gallant bori drwy lyfrau yn y llyfrgell neu ddefnyddio adnoddau ar-lein i chwilio am eu hoff gerddi. Maes o law, gall pob grŵp gyflwyno eu casgliad personol nhw i weddill y dosbarth.

℗ llun: Delyth G Morgans Phillips/*Cerddi'r Cof* ℗ Dref Wen, 2008/*Sgram! Cerddi Blasus* ℗ Atebol, 2012

Gelert y Ci Ffyddlon
gan Myrddin ap Dafydd

Cyflwyno'r Testun
- Gofyn i'r disgyblion pwy sydd wedi bod ym Meddgelert.
- Rhannu'r dosbarth yn barau i ddechrau, a gofyn iddynt ddarllen y darn gyda'i gilydd. Gofyn i'r parau lunio rhestr o eiriau sy'n anghyfarwydd iddynt. Creu siart ddosbarth o eiriau newydd o ganlyniad i'r ymarfer.
- Darllen y darn i'r dosbarth cyfan.

Gwaith Meddwl
- Rhannu'r dosbarth yn grwpiau, a gofyn i'r disgyblion sawl un ohonynt sydd wedi clywed stori Gelert o'r blaen. Ydy'r stori a gyflwynir yn y testun yn adlewyrchu'r hyn roedden nhw'n ei wybod eisoes am y stori? Os felly, sut? Nodi ar ffurf tabl beth sy'n creu stori dda, a gofyn i'r disgyblion ddisgrifio sut y gwneir hyn yn y stori arbennig hon:

Stori Gelert	
Cymeriadau lliwgar a diddorol	
Digwyddiadau cyffrous	
Deialogau da a chredadwy	
Diweddglo effeithiol	

Gwaith Trafod
- Rhannu'r disgyblion yn grwpiau a gofyn iddynt feddwl beth yw'r prif wahaniaethau rhwng bywyd yng nghyfnod Llywelyn a heddiw. Gofyn hefyd iddynt feddwl am y gwahaniaeth rhwng bywyd Llywelyn fel brenin a bywyd person cyffredin yn yr un cyfnod. Cynnal trafodaeth ddosbarth ar y pwnc.
- Mewn grwpiau, gofyn i'r disgyblion drafod pa deimladau sy'n corddi Llywelyn wrth iddo ddychwelyd i'w ystafell a gweld yr olygfa o'i flaen. Gellid rhannu'r teimladau hyn i wahanol adegau, sef:
  - ★ Cyn iddo fynd yn ôl i'w ystafell
  - ★ Wrth iddo gamu i mewn i'r ystafell, a gweld yr olygfa sy'n ei wynebu
  - ★ Wedi iddo ladd y ci.

Gwaith Iaith
- Gofyn i'r disgyblion drafod y disgrifiad a geir o'r blaidd wrth iddo ymosod ar Gelert – gofyn iddynt nodi sawl ansoddair a geir yn y darn, 'Yn sydyn, neidiodd dwy res o ddannedd . . . yn fodlon ymladd hyd farwolaeth i gael pryd blasus o fwyd.' Gofyn iddynt nodi hefyd sawl lliw gwahanol sydd yn y darn. Gofyn i'r disgyblion dynnu lluniau'n seiliedig ar y disgrifiad a geir yma.

Gweithgareddau

- Annog y disgyblion i chwilio ar y we am wybodaeth am Llywelyn Fawr. Ble roedd e'n byw, a phryd? Pwy oedd ei wraig, a beth oedd enwau ei blant? Dros ba ran o Gymru roedd e'n teyrnasu? Gofyn i'r disgyblion nodi'r ffeithiau hyn ar ffurf coeden deuluol.
- Gofyn i'r disgyblion feddwl beth fyddai barn y bobl leol am yr hyn wnaeth Llywelyn i'w hoff gi. Pe byddent yn ysgrifennu i bapur newydd lleol ar y pryd, sut byddai'r hanes yn cael ei gofnodi? Trafodwch pa fath o iaith fyddai gohebydd yn ei defnyddio i ddisgrifio'r digwyddiad, a gofyn i'r disgyblion lunio adroddiad cryno ar gyfer y papur newydd.
- Ar ôl eu rhannu'n grwpiau o dri, gofyn i'r disgyblion lunio cyfres o bump o luniau llonydd o'r stori, i'w cyflwyno i weddill y dosbarth. Wedi i bob un o'r grwpiau berfformio eu stori, gofyn iddynt ychwanegu tri gair at bob un o'r lluniau, gan sicrhau eu bod yn dewis geiriau sy'n cyfleu'r darlun yn effeithiol. Unwaith eto, gofyn i'r grwpiau berfformio'r lluniau o flaen y dosbarth.
- Dangos llun o fedd Gelert i'r dosbarth a gofyn iddynt ddweud, neu ddyfalu, beth yw gweddill y stori. Yn sgil y drafodaeth am deimladau Llywelyn wedi iddo ladd y ci, gofyn i'r disgyblion lunio tudalen o ddyddiadur Llywelyn y noson wedi'r digwyddiad. Gofyn iddynt ystyried sut mae Llywelyn yn teimlo, gan roi disgrifiad cryno o'r hyn a ddigwyddodd, a beth mae e'n bwriadu ei wneud nesaf.

℗ llun: Robin Lawrie/*Cyfres Straeon Plant Cymru: Gelert, Y Ci Ffyddlon* ℗ Gwasg Carreg Gwalch, 2005

Siani'r Shetland
gan Anwen Francis

Cyflwyno'r Testun

- Dechrau trwy ofyn pwy sydd ag anifail anwes, a thrafod y gwahanol fathau o anifeiliaid sy'n cael eu henwi. Gellir hyd yn oed gyflwyno anifail anwes go iawn i'r dosbarth, e.e. bochdew neu gi.
- Darllen y testun fel dosbarth cyfan gan dalu sylw arbennig i'r defnydd o ddeialog yn y darn. Gellir annog disgyblion i ddarllen darnau ohono ar goedd.
- Dosbarthu'r disgyblion yn grwpiau o dri, a'u hannog i ailddarllen y darn yn eu grwpiau. Gellir gofyn i'r grwpiau (os ydynt yn ddigon hyderus) gyflwyno darnau amrywiol o'r testun i weddill y dosbarth – pob grŵp i gyflwyno darn gwahanol.

Gwaith Meddwl

- Gofyn i'r disgyblion, mewn parau, feddwl pa anifeiliaid yr hoffent eu cael yn anifeiliaid anwes. Gellir llunio rhestr o'r pump uchaf, gan gymharu rhestrau'r gwahanol grwpiau.

Gwaith Trafod

- Rhannu'r dosbarth yn grwpiau o dri, a gofyn iddynt drafod sut y penderfynodd Beca ar yr enw 'Siani'. (Bydd raid iddynt ailddarllen darnau olaf y testun i ddod o hyd i'r ateb.)
- Os oes gan rai plant anifail anwes gartref, gofyn iddynt drafod sut y penderfynon nhw pa enw i'w roi ar yr anifail.

Gwaith Iaith

- Enwau lluosog:
  Tynnu sylw'r disgyblion at rai o'r enwau lluosog sy'n ymddangos yn y darn, e.e. ceffyl > ceffylau, ci > cŵn. Gallant weithio mewn parau i danlinellu pob enghraifft o'r gair 'ceffylau' sy'n ymddangos yn y darn. Y cam nesaf fyddai gofyn iddynt lenwi'r grid isod, mewn parau. Dylent ddefnyddio geiriadur i'w helpu i chwilio am yr atebion, neu fynd yn ôl at y darn darllen gan fod rhai enghreifftiau wedi'u tynnu o'r darn.

Unigol	Lluosog
• Ffrwyth	•
• Dyn	•
• Ffermwr	•
• Ebol	•
• Marchnad	•
• Asyn	•
• Llwynog	•
• Buwch	•
• Tarw	•
• Caseg	•

Ansoddeiriau

- Atgoffa'r disgyblion beth yw ansoddair, sef gair sy'n disgrifio. Yna, gofyn iddynt restru, mewn grwpiau, unrhyw bump ansoddair sy'n ymddangos yn y darn. Gallant wedyn benderfynu pa ansoddeiriau sy'n disgrifio'r rhain orau:
  - ★ Yr athro / athrawes
  - ★ Aelod o'r teulu
  - ★ Anifail anwes
- Gwneud gwaith meimio gyda'r disgyblion; gofyn i un disgybl o bob grŵp feimio un o'r ansoddeiriau sydd yn y swigod i weddill y dosbarth, a gweld pwy yw'r cyntaf i ddyfalu pa ansoddair a ddewiswyd.



Gweithgareddau

- Ar ôl trafod sut mae Beca'n teimlo am geffylau, ac am Siani Shetland yn benodol, trafod â'r dosbarth pa un yw eu hoff anifail anwes. Rhoi cyfle i bob disgybl grwydro o amgylch y dosbarth i lenwi'r tabl isod. Dylai pob disgybl ofyn i bum person arall pa anifail anwes sydd ganddyn nhw, a pha un yw'r anifail anwes delfrydol yn eu barn nhw.

Enw	Pa Anifail Anwes?	Anifail Anwes Delfrydol?
1.		
2.		
3.		
4.		
5.		

- Rhannu'r dosbarth yn grwpiau a rhoi cyfle iddynt ragfynegi beth sy'n digwydd nesaf. Gofyn iddynt ddychmygu beth sy'n digwydd ar ôl i Beca a'i mam brynu'r gaseg a mynd â hi adref. Os ydynt yn ddigon hyderus, efallai yr hoffai rhai grwpiau ddramateiddio'r darn nesaf hwn, a pherfformio'r olygfa o flaen gweddill y dosbarth.
- Annog y dosbarth i ddarllen penodau nesaf y nofel i ddarganfod beth sy'n digwydd go iawn.
- Llunio poster 'Sut i ofalu am . . .' (gi / cath / ceffyl ayyb.). Gallant wneud ychydig o waith ymchwil i gywain rhai ffeithiau, e.e. edrych ar wefan yr RSPCA. Bydd angen adolygu'r modd gorchmynnol gyda'r dosbarth hefyd, e.e.

  - ★ **Rhowch** ddŵr iddo
  - ★ **Ewch** ag ef am dro
  - ★ **Peidiwch** . . ..
  - ★ **Byddwch** . . ..

- Gosod her iddynt ysgrifennu'n estynedig a llunio eu stori fer eu hunain, gan ddefnyddio'r un frawddeg agoriadol:
  - ★ Cyrhaeddodd Beca a'i mam farchnad geffylau Llanybydder am ddeg o'r gloch yn y lorri fawr goch.

  Gellir cyflwyno'r strwythur canlynol i'r disgyblion a'u hatgoffa i ddefnyddio deialog hefyd os oes angen.

  Dechrau
  - ★ Esbonio pam eu bod nhw yn y farchnad geffylau.
  - ★ Disgrifio'r farchnad – sŵn, arogleuon gwahanol.
  - ★ Disgrifio cymeriadau eraill.

  Canol
  - ★ Dyma brif ran y stori.
  - ★ Beth sy'n digwydd?
  - ★ Sut mae Beca a'i mam yn ymateb?
  - ★ Sut maen nhw'n teimlo?

  Diwedd
  - ★ Sut mae'r stori'n gorffen?
  - ★ Oes rhywbeth annisgwyl yn digwydd ar y diwedd?
  - ★ Sut mae'r cymeriadau'n teimlo erbyn y diwedd?

℗ llun: Maggy Roberts/*Siani'r Shetland* ℗ Gwasg Gomer, 2005

‘Rhodri’ o *Mae’n Wlad i Mi – Cip ar Blant Cymru Heddiw*

gol. Ann Saer

Cyflwyno’r Testun

- Rhannu’r dosbarth yn barau a gofyn iddynt ddarllen y testun. Annog y disgyblion i chwilio am ystyron unrhyw eiriau sy’n anghyfarwydd iddynt, gan nodi’r geiriau hynny ar nodiadau gludiog ‘Post-it’.

Gwaith Meddwl

- Rhannu’r dosbarth yn grwpiau o dri, a’u hannog i werthuso defnyddioldeb y testun gan ystyried y pwyntiau canlynol:
  - ★ Ydy’r testun yn hawdd neu’n anodd ei ddeall? Pam?
  - ★ Ydy’r wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd ddiddorol?
  - ★ Ydych chi’n cael darlun da o fywyd bachgen fferm? Sut?
  - ★ Ydych chi’n credu bod y lluniau’n ychwanegu at eich dealltwriaeth o’r testun? Sut?
  - ★ Fyddech chi’n hoffi byw bywyd tebyg i un Rhodri? Disgrifiwch ym mha ffyrdd mae bywyd fel hyn yn apelio atoch, a pha elfennau nad ydych chi’n eu hoffi.
  - ★ Wnaethoch chi fwynhau darllen hanes Rhodri? Pam?

Gwaith Trafod

- Annog y disgyblion, yn eu grwpiau, i gywain yr hyn maent wedi’i ddysgu, trwy ddarllen y darn, am y canlynol:

Teulu Rhodri	• Ganwyd ei fam ym Malvern •
Pa anifeiliaid sydd gan Rhodri?	
Hoff bethau Rhodri	
Da Duon Cymru	
Beth mae Rhodri’n hoffi ei wneud gyda’i ffrindiau?	

Gwaith Iaith

O gofio’r disgrifiad o enwau’r Epynt a Malvern, gofyn i’r disgyblion chwilio am enwau lleoedd lleol, gan gyflwyno ystyron cyffredin megis ‘Llan’ ac ‘Aber’. Oes yna enwau lleol anghyfarwydd, neu rai sy’n disgrifio’r tirwedd lleol, neu nodweddion hynod?

Gofyn i’r disgyblion lunio posteri’n annog pobl i ymweld â thre fach Llanwrtyd er mwyn gwylio neu gymryd rhan mewn Snorcelio Cors. Cofiwch annog y disgyblion i ddefnyddio iaith bwrpasol, gyffrous i ddisgrifio’r gweithgarwch a’r dref wrth greu eu posteri.

Gweithgareddau

- Gan ddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y testun, lluniwch ddyddiadur deuddydd byr o fywyd Rhodri, gan gynnwys disgrifiad o ddiwrnod ysgol a diwrnod ar y penwythnos. Beth sy’n arbennig am yr hyn mae’n ei wneud yn yr ysgol, ac at beth mae’n edrych ymlaen pan fydd wedi cyrraedd adref?
- Gan ddefnyddio gwefannau megis Wikipedia, chwiliwch am ragor o wybodaeth am Dda Duon Cymreig ac am ddefaid Beulah. Gofynnwch i’r disgyblion ddod o hyd i luniau o’r anifeiliaid hyn. Cyfeiriwch hwy at anifeiliaid ac adar eraill sy’n cael eu cysylltu â Chymru, e.e. y barcud coch, cŵn defaid Cymreig, y corgi, cobiau Cymreig, a gofyn iddynt rannu’n grwpiau i ddewis un anifail a llunio poster yn ei ddisgrifio.
- Gan ddefnyddio gwefannau megis Google Maps, chwiliwch am ardal Epynt a’i hamlinellu. Defnyddiwch wefannau gwybodaeth poblogaidd i ddod o hyd i hanes yr ardal – pwy oedd yn byw yma, hanes yr allfudo yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a beth ddigwyddodd i’r bobl leol yn sgil yr allfudo. Sut oedd y bobl hyn yn teimlo wrth gael eu hanfon o’u cartrefi? I ble y bydden nhw’n mynd? Beth fyddai’n digwydd i’w cartrefi? Oedden nhw’n credu y gallent ddod yn ôl yno rywbryd yn y dyfodol?
- Gofyn i’r disgyblion, mewn parau, ddisgrifio hanes trigolion yr ardal ar ffurf bwletin newyddion wedi’i lunio ar ôl iddynt gael eu hanfon o’r ardal adeg yr Ail Ryfel Byd. Gellid ffilmio’r darnau hefyd.

Mae’n Wlad i Mi - Cip ar Blant Cymru Heddiw ℗ Gwasg Gomer, 2006

Draig Goch Cymru
gan Myrddin ap Dafydd

Cyflwyno'r Testun

- Hongian baner Cymru ar wal y dosbarth a gofyn i'r disgyblion baner pa wlad yw hi!
- Gofyn iddynt restru, mewn grwpiau, ble maen nhw'n debygol o weld y faner, e.e. mewn gêmau rygbi.
- Darllen y testun fel dosbarth cyfan, gan esbonio unrhyw eiriau newydd / anghyfarwydd. Gellir gofyn i wahanol barau grynhoi cynnwys pob paragraff ar lafar.

Gwaith Meddwl

- Rhannu'r dosbarth yn grwpiau a gofyn iddynt ystyried a ydy baner Cymru yn bwysig iddyn nhw. Ydyn nhw'n hoffi chwifio'r faner ar wahanol achlysuron? Pryd a pham?

Gwaith Trafod

- Gofyn i'r dosbarth a ydyn nhw'n medru adnabod baneri unrhyw wledydd eraill.
- Dangos baneri eraill i'r dosbarth drwy ddefnyddio atlas neu'r we, a chwilio i weld a oes anifail ar faner unrhyw wlad arall. Pa faner yw'r un fwyaf lliwgar? Pa faner yw'r un fwyaf diflas? Pa un yw eu hoff faner? Pa un yw'r un fwyaf anghyffredin?

Gwaith Iaith

- Rhannu'r dosbarth yn barau a gofyn i bob pâr ailddarllen y testun ac yna llunio rhestr o bum gair sy'n anghyfarwydd iddyn nhw. Gofyn i'r parau gyfnewid rhestrau a mynd ati i ddefnyddio geiriaduron i ddod o hyd i ystyr y geiriau sydd ar y rhestr.

Gair	Ystyr
1.	
2.	
3.	
4.	
5.	

- Gofyn i'r dosbarth a oes rhai o bwyntiau'r cwmpawd yn cael eu nodi yn y testun (Gogledd / De / De-ddwyrain). Cyflwyno holl bwyntiau'r cwmpawd iddynt. Gofyn iddynt danlinellu'r enwau lleoedd sy'n ymddangos yn y darn, a chreu neu ddod o hyd i fap o Brydain er mwyn nodi'r holl leoedd hynny.
- Tynnu sylw at eiriau arbennig e.e. Cymru / Cymry / Cymreig / Cymraeg, gan esbonio'r gwahanol ystyron. Gofyn iddynt ddefnyddio'r rhain mewn brawddegau i ddangos eu bod wedi deall y gwahaniaeth rhyngddynt.

Gweithgareddau

- Trafod beth sy'n digwydd i Gwrtheyrn yn y stori, a gofyn iddynt ail-greu'r stori ar ffurf stribed cartŵn neu fwrdd stori.
  I ddechrau, dylid rhannu'r dosbarth yn grwpiau a gofyn iddynt grynhoi cynnwys y stori a chywasgu cynifer o ffeithiau â phosib. Yna, dosbarthu pum sgwâr mawr gwag i bob disgybl – gan gynnwys swigod siarad gwag hefyd – a gofyn iddynt gywasgu'r stori i'r pum sgwâr hynny.
- Edrych ar y darn eto a gofyn i'r disgyblion weithio mewn parau i ateb y cwestiynau canlynol:
  - ★ Beth ddigwyddodd ar noson 'Brad y Cyllyll Hirion'?
  - ★ Pam oedd Gwrtheyrn eisiau adeiladu castell?
  - ★ Beth oedd yn digwydd pan oedd Gwrtheyrn yn ceisio adeiladu castell iddo'i hun?
  - ★ Hoffech chi fyw yn yr un cyfnod â Gwrtheyrn? Pam? Pam ddim?
- Rhannu'r dosbarth yn grwpiau o bedwar a gofyn iddynt ddychmygu eu bod yn cynhyrchu rhaglen 'Sioe Siarad' gyda Gwrtheyrn yn westai arbennig. Dylai pob grŵp baratoi rhyw chwe chwestiwn i'w gofyn i'r gwestai, a'r plentyn sy'n chwarae rhan Gwrtheyrn yn cynnig atebion sy'n adeiladu ar yr hyn a geir yn y testun. Gellir recordio'r gwaith ar gamera digidol, a gweithio fel dosbarth i werthuso ymdrechion pob grŵp.
- Annog y dosbarth i ragfynegi beth sy'n peri i waliau'r castell syrthio. Dylent weithio mewn grwpiau, gyda phob grŵp yn cynnig o leiaf dri rheswm.
- Trafod y math o wahoddiad y byddai'r Sacsoniaid wedi'i estyn i Gwrtheyrn i ddod i wledda yn un o'u neuaddau. Ydy'r plant wedi cael gwahoddiad i barti erioed? Pa fath? Gofyn iddynt lunio gwahoddiad pwrpasol i Gwrtheyrn, gan roi sylw i ddyluniad yn ogystal â geiriad y gwahoddiad, e.e. naws Geltaidd / Ganoloesol.
- Trafod eu delweddau nhw o Gymru. Beth sy'n gosod Cymru ar wahân i wledydd eraill? Gofyn iddynt ddefnyddio'r syniadau hyn i greu baner newydd i Gymru. Pa liwiau a phatrymau fyddai ar y faner? Pam?
- Gall y testun hefyd esgor ar gywaith ar gestyll, mewn grwpiau, gan ddechrau trwy drafod a chreu rhestr o'r cestyll mae'r plant wedi ymweld â nhw. Tasgau perthnasol eraill fyddai:
  - ★ Creu arolwg dosbarth a dangos y canlyniadau ar ffurf graff.
  - ★ Defnyddio'r we i wneud gwaith ymchwil ar gestyll Cymru.
  - ★ Trefnu i ymweld â chestyll i gymharu nodweddion ayyb.

Cyfres Straeon Plant Cymru: Draig Goch Cymru ® Gwasg Carreg Gwalch, 2005

Ar y dde ceir manylion am y llyfrau ac adnoddau eraill a ddefnyddiwyd wrth greu pecyn *Anifeiliaid*. Diolch i'r cyhoeddwyr am eu cymorth a'u cydweithrediad ac am eu caniatâd i ddefnyddio'r testun a'r lluniau a welir yn Llyfryn y Disgybl.

Mae'r holl deitlau a restrir isod ar gael trwy'ch siop lyfrau leol neu www.gwales.com ac roedd y prisiau'n gywir wrth i'r pecyn fynd i'r wasg (11/2012).

Sgram! Cerddi Blasus
Golygydd: Non ap Emlyn
Cyhoeddwr: Atebol
ISBN: 9781908574091
£9.99



Cerddi'r Cof – Goreuon Barddoniaeth i Blant
Golygydd: Mererid Hopwood
Cyhoeddwr: Dref Wen
ISBN: 9781855967618
£12.99

Gelert y Ci Ffyddlon – Cyfres Straeon Plant Cymru
Myrddin ap Dafydd
Cyhoeddwr: Gwasg Carreg Gwalch
ISBN: 9780863819803
£4.50

Siani'r Shetland
Anwen Francis
Cyhoeddwr: Gwasg Gomer
ISBN: 9781843232544
£4.49

Mae'n Wlad i Mi – Cip ar Blant Cymru Heddiw
Golygydd: Ann Saer
Cyhoeddwr: Gwasg Carreg Gwalch
ISBN: 9781843234258
£5.99

Draig Goch Cymru Cyfres Straeon Plant Cymru
Myrddin ap Dafydd
Cyhoeddwr: Gwasg Carreg Gwalch
ISBN: 9781845271107
£4.50

Pecyn *Anifeiliaid*:
Llyfryn y Disgybl, Llyfr yr Athro a CD

Paratowyd y pecyn hwn i gyd-fynd â dathliadau Diwrnod y Llyfr 2013. Ei nod yw cyflwyno amrywiaeth o ddeunyddiau darllen ar yr un thema – anifeiliaid – i ddisgyblion CA2, ond gellid ei ddefnyddio hefyd gyda Blwyddyn 7, neu i bwrpas pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r testunau i gyd wedi eu cymryd o lyfrau a gyhoeddwyd yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a gobeithir y bydd y darnau a gyflwynir yn y pecyn yn rhoi blas i'r disgyblion ar y llyfrau, ac yn eu denu at y testunau yn eu cyfanrwydd.

Mae'r pecyn yn cynnwys llawlyfr ar gyfer athrawon, sy'n cyflwyno awgrymiadau am weithgareddau trawsgwricwlaidd yn seiliedig ar y testunau y gellid eu cyflwyno yn y dosbarth. Nid 'cynlluniau gwersi' yw'r rhain, i'w dilyn air am air. Gall athrawon naill ai ddefnyddio'r gweithgareddau fel y maent, neu ddewis rhai ohonynt, yn ôl anghenion eu dosbarthiadau.

Mae'r testunau, ynghyd â'r gweithgareddau a seilir arnynt, yn amrywio o ran cynnwys ac anhawster, a'r gobaith yw y byddant yn cwrdd â gwahanol anghenion yr ystod oedran a dargedir.

Cyflwynir y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn statudol mewn ysgolion o fis Medi 2013; bydd yn disodli elfennau rhifedd a chyfathrebu y Fframwaith Sgiliau ar gyfer plant 3 i 19 oed yng Nghymru (2008).

Mae'r CD yn cynnwys y cyfan o lyfryn y disgybl a llyfr yr athro.

Dafydd a Mandi Morse oedd yn gyfrifol am ddewis y testunau ac am lunio'r gweithgareddau.